CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 15ed MEDI 2026.

CAPEL GAD BODFFORDD.

PRESENNOL:
Cyng. Mrs B Jones (Is-Gadeiryddes) Cyng. Ms N Dafydd, J Evans, D T Roberts, Mrs L Roberts, R R Roberts ar Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU: Cyng. G Jones, J E Lewis, R G Parry, W R Parry.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Cyng. Mrs B Jones (Rhif 4)

Cyng. Mrs B Jones (Is-Gadeiryddes) oedd yn y gadair.

Cafwyd munud o ddistawrydd, gyda`r Cynghorwyr ar Clerc yn sefyll i gydymdeimlo a Cyng. J E Lewis yn ei brofedigaeth o golli ei Gymar.

CAEL COFNODION 21ain GORFFENNAF 2026 YN RHAI CYWIR:
Cynnig Cyng. R R Roberts eilo Cyng. J Evans.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. HHP/2026/126. Cais llawn ar gyfer codi ystafell ardd yn :-
43, Caer Delyn, Bodffordd.
Dim gwrthwynebiad.
Unfrydol. (Oherwydd dim cyfarfod mis Awst) Diolch i`r rhai a gafwyd sylw ganddynt.

2. FPL/2023/15. Cais llawn i godi 15 ty fforddladwy, creu mynedfa newydd i gerbydau ac i gerddwyr ynghyd a creu ffordd mewnol a gwaith cysylltiedig ar dir ger:- Adolygiad.
Haulfryn, Scotland Terrace, Bodffordd.
Dim gwrthwynebidad.
Unfrydol (Oherwydd dim cyfarfod mis Awst) Diolch i`r rhai a gafwyd sylw ganddynt.

3. FPL/2026/72. Cais llawn ar gyfer creu compownd storio newydd gyda lleoli cynhwysydd parhaol a ffens yn:-
Stad Ddiwydiannol Mona.
Dim gwrthwynebiad.
Cynnig Cyng. Mrs L Roberts, eilo Cyng. R R Roberts.

4. FPL/2026/159. Cais llawn ar gyfer codi stabl ar dir yn:-
Rhyd Fawr, Trefor.
Dim gwrthwynebiad.
Cynnig Cyng. J Evans, eilio Cyng. D T Roberts.

PENDERFYNIADAU. (CYNLLUNIO)

5. VAR/2026/27. cais o dan adran 73 ar gyfer newid amod 2 (Cynlluniau Cymeradwy) o ganiatad cynllunio cyfeirnod FPL/2020/122 (Codi annedd gyda balconi) er mwyn diwygio`r dyluniad yn:-
Tyddyn Isaf, Bodffordd.
Caniatad. Y Cyngor wedi rhoi cefnogaeth.

6. FPL/2023/15. 15 Tai fforddiadwy, creu mynedfa i gerbydau a cerddwyr a`r dir:-
Haulfryn, Scotland Terrace, Bodffordd.
Caniatad. Y Cyngor yn derbyn y wybodaeth, nid oedd ganddynt wrthwynebiad.

7. Adran 118. Llwybr Troed Rhif 34 (Llynfaes) Bodffordd. O`r B5109 gyferbyn a 1 Siop Newydd ym mhwynt A (SH409987391) mae`r llwybr yn mynd i mewn i gae dros gamfa gerrig. (Cae Bach, Tynlon)
Caniatad. Y Cyngor wedi cefnogi. Nid oedd defnyddio ar y ffynnon ers daeth y brif bibell ddwr.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

8. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
Mae gostyngiad sylweddol ar y nifer o bobl ifanc, sydd ddim mewn addysg. Cyflogaeth neu Hyfforddiant (NEET) wedi gostwg yn ddiffuant ar yr Ynys. Cyhoeddwyd ffigyrau diweddaraf yn rhan o gerdyn scorio perfformiad y Cyngor yn welliant gyda 0.6% o bobl ifanc yn categori neet ar ol ymadael a`r Ysgol yn 2025. Patrwm calanogol dros y blynyddoesdd diwerthaf Gostyngiad canran y bobl ifanc neet o 1.9% yn 2024/25 ac o 4% yn 2023/24.
Y Cyngor yn croesawy y canlyniad.

9. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned - Dyddiad y cyfarfod nesaf nos Fercher 30ain Medi 2026 am 6.30 yh. Cyng J E Lewis fydd yn cynrychioli y Cyngor. Mae cyfle i fwy o`r Cyngor gymryd rhan.

10. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
Y Cyngor yn dderbyniol ac yn gefnogol o`r Cyngor Sir yn galw am weithredu brys ar drydedd groesfan dros y Fenai. Comisiynwyd adroddiad newydd gan y Cyngor Sir. Nodwyd fod y pontydd presennol, un dros 200 oed, ar gyfer ceffyl a throl. Bellach ddim yn ymwneud a`r gofynion modern. Mae yn rhwystro cyfleoedd trwasneweidiol sylweddol gan gynnwys Porthladd Rhydd Ynys Môn. Gorsaf Bwer Gwyndod (Wylfa) ac hefyd Porthladd Caergybi sydd yn lwybr masnach holl bwysig rhwng DU a`r Undeb Ewropeaidd.

11. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
Y Cyngor Sir yn llongyfarch Myfyrwyr Môn a`r ganlyniadau safon uwch a Lefel 3.
Rhoddwyd camoliaeth iddynt a ei gwaith caled, wrth iddynt gymryd eu camau nesaf. Mewn Addysg uwch, hyfforddiant pellach prentisiathau neu gyflogaeth.
Y Cyngor yn derbyn y wybodaeth ac yn dymuno llwyddiant pellach.

GOHEBIAETH (ARALL)

12. Perthyn: Cwmpas.
Mae`n perthyn i`n Cymunedau. Nodiadau canllaw cynllun grant.
Y Cyngor wedi ei gael ymlaen llaw i gael crynhoad. Nid oedd y Cyngor yn gallu cael grant, bydd rhaid iddynt fod yn Fudiadau. Penderfynwyd pasio ei gynnwys ymlaen i Ysgrifenyddes y Neuadd Goffa, Bodwrog.

13. Un Llais Cymru - Lynn Cadwallader.
Teitl: Rôl y Cadeirydd yn ystod y cyfarfod.
Rhoddwydd copi i Cyng. Mrs B Jones (Is-Gadeiryddes) Geneth ifainc sydd yn y gadair am y tro cyntaf ar y noson. Ag sydd yn frwdfrydig iawn.

14. Un Llais Cymru - Wendi Patience.
Pecynnau Biomrywiaeth 2026 - 2027.
Cais a Tystiolaeth cyn y dyddiad cau 30ain Medi 2026.
Mae coed a hadau blodau ar gael i'r Cyngor gyda lle i'w rhoi, rhaid cael cynllun. Yn anffodus nid ydyw y tir gan y Cyngor ond ambell sgwar bach. Mae yn rhaid cael lle ar raddfa fawr.

15. Un Llais Cymru - Wendi Patience.
Hyfforddiant Awdt - Rhagfyr.
Y Clerc yn cymell rhywun i fynd, mae ar gael ar Zoom.

16. Un Llais Cymru - Tracy Gilmartin.
Cynygion ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2027. 3ydd Chwefror 2027.
Gwahoddiad o gynygion gan y Cynghorau erbyn 4ydd Rhagfyr 2026.
Trafodwyd a pasiwyd i'w adael, nid oedd unrhyw gynigion.

17. Un Llais Cymru - Tracy Gilmartin.
Cynhadledd Arfer Arfoesol dydd Mercher 30ain Medii 2026.
Maes Sioe Amaethyddol Llanfair Ym Muallt.
Penderfynwyd gadael nid oedd neb yn barod i fynychu.

18. Clercod a Cynghorau Uniongyrchol. Cylchgrawn. Derbyn.

RHODDION.

19. Dim.

PLWYFOL.

20. Elusen William Bold.
Angen dewis 2 Gynrychiolydd ar yr Elusen am bedair blynedd hyd 2030.
Oherwydd fod ond un o Gynghorwyr Heneglwys yn absennol. Pasiwyd i ddewis yn y cyfarfod nesaf. Rhaglen Mis Hydref.

21. Cafwyd cwyn gan drigolion Bodffordd o Gontractwyr sydd yn adeiladu yn Haulfryn, Bodffordd. Fod ei ceir a faniau yn cael ei parcio wrth y Gysgodfan Bws ger Capel Sardis. Efallai y dylai man parcio wedi ei wneud ar y safle. Cyng Ms N Dafydd yn cymryd y mater i fynnu.

22. Fflachwyr Cyflymder. (Dan Gynllun Balchder)
Pasiwyd i rhoi fflachwyr cyflymder ym Mhentre Bodffordd 20 mya o gwaleod Bodffordd (groeslon Llangwyllog) i Green Farm Bodffordd un bob pen. Hefyd yn pentre Llynfaes, rhoi 40 mya o Llynfaes Uchaf i Glanrhyd un yn bob pen. Mae rhain yn dod dan y Cynllun.
Oherwydd fod man peryglus o'r A5 tuag at yr ysgol, pasiodd y Cyngor i dalu am un ychwanegol 20 mya dros ffordd i Tai Cyngor Bronheulog. Cynnig Cyng. J Evans, eilio Cyng. Mrs L Roberts, gyda pawb yn cefnogi.

23. Adroddiad y Cynghorydd Sirol Ms N Dafydd.
Derbyniwyd beth oedd yn gystylliedig a Bodffordd. Hefyd Non sydd wedi bod yn gyfrifol o`r Cynllun Fflachwyr Cyflymder. Diolch iddi.

MATERION ARIANNOL.

24. Cyfrif Rhedegol. £27,360.83 (Preseb 2 £5000.00)

ARIAN MYNWENT GYMUNEDOL. £12,346.63. (Rhan o`r cyfrif Rhedegol)

TALIADAU:

18. Clerc £517.06 Treth Incwm 2. £387.80. Gweinyddu (3 mis) £204.20. E Frazer (C a C Mynwent Gymunedol) £330.00. Zurich Municipal (Ysiwrant y Cyngor) £551.92.

Derbyn cydbwysedd cyfrif, a talu y dyledion i gyd. Cynnig Cyng. R R Roberts eilio Cyng. J Evans.

D Owen (Clerc / RFO)